Cadw
Fforwyr Hanes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ARLOESWYR

## Tessa Verney Wheeler - Archeolegydd

gan Joanna Davies



# Contents



| | |
|---|---|
| Tessa Verney Wheeler | 3 |
| Lle menywod | 5 |
| Cloddio'n ddyfnach | 6 |
| Y "Wheelers" | 7 |
| Blowsys gwyn a hosanau glas | 8 |
| Darganfod archeoleg | 9 |
| Cloddio yng Nghymru | 10 |
| Darganfyddiadau bach, syniadau mawr | 11 |
| Teirw crac a darganfyddiadau mawr | 14 |
| Caerllion, y cloddio a newidiodd bopeth | 16 |
| Chwaraeon eithafol, adeg y Rhufeiniaid | 21 |
| Y Ford Gron ynteu'n adfail Rhufeinig? | 22 |
| Tessa wrth y llyw | 25 |
| Darganfyddiadau hynod ddiddorol | 26 |
| Pethau i'w gwneud | 27 |
| Amser mynd | 29 |
| Darllenwch bopeth amdani | 30 |
| Mosaigau a gridiau | 31 |
| Enwogrwydd byrhoedlog | 33 |
| Mae'r hud wedi mynd | 34 |
| Dysgu mwy | 36 |


"Y fenyw fach ryfedd, wibiog hon, a roddai gymaint i bobl eraill tra oedd yn cadw ei henaid ei hun yn guddiedig…"
-Lydia Carr

# Tessa Verney Wheeler

Mewn swyddfa sy'n ddwfn yn llawr gwaelod yn adeiladmawreddog Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, mae tri blwch ffeiliau cadarn. Yn y ffeiliau hyn mae casgliad o lythyrau a ysgrifennwyd â llaw, llyfrau nodiadau, darluniau a phenawdau gorliwgar. Ar y rhan fwyaf o'r dogfennau hyn ceir y llofnod "TVW" mewn llawysgrifen bendant.

Ynddyn nhw datgelir hanes un o'r digwyddiadau mwyaf cyffrous ym myd archeolegol Prydain a ddigwyddodd yng Nghymru bron i gan mlynedd yn ôl. Yng nghanol y cyfan roedd menyw benderfynol, Tessa Verney Wheeler, arloeswr, neu "arloes-wr gyda thrywel" a drawsnewidiodd y ffordd y mae archeolegwyr yn gweithio heddiw. Ond, yn rhyfedd, nid yw ei henw'n adnabyddus i lawer



ARCHAEOLOGY
24 NOV. 1927

November 21st 1927


Dear Old Lad,

Very many thanks for all your kindness. The card catalogue is safely to hand.

Of course, you must take the money for the wreath. I send it in P.O. form so that you shall! To fail to cash the order would be to make the Post Office the present of a £1 which is manifestly absurd.

Yours ever
TVW.

Also for Caerleon finds — now being drawn.



Mr. Nash-Williams

A PILGRIMAGE OF KNIGHTS

TO SEE THE CAERLEON EXCAVATIONS.

ARTHURIAN LEGEND.

SPONSORS ANXIOUS FOR NEW FACTS.

FROM OUR SPECIAL CORRESPONDENT.

LONDON, Tuesday.

An interesting event of the coming spring is the proposed pilgrimage of a party of the Knights of the Round Table to the excavations at Caerleon.


Sir Trevor Dawson, Bart., Knight President of this very ancient brotherhood, made interesting allusion to its activities the other day. "The excavations at Caerleon," he said, "are of especial interest to us, inasmuch as valuable information bearing on the Arthurian cycle may be revealed on that famous spot."

Referring to the constitution of the Knights, Sir Trevor said the Order might be regarded as possessing the nature of an ancient city guild, both in constitution and work, the only difference being that its activities were more universal and more national.

There is so much that is interesting about this ancient institution, and its connection with the historic spot in South Wales, that I ventured yesterday to ask Sir Trevor to tell me more about its activities and particularly about its proposal to organise a visit to the excavations. Sir Trevor, who is obviously a most enthusiastic and learned official, would have talked readily enough but for the fact that the plans are in the hands of the club's remembrancer, Mr. Ernest Nicks, who shares Sir Trevor's enthusiasm, and will be the man principally concerned in the organisation of the proposed visit to Caerleon.

FORMERLY KNOWN AS CAMELOT.

"We are, of course," he said, "the sponsors in this country of the Arthurian legend, and it is natural, therefore, that we should be deeply interested in what is happening in Monmouthshire. The knights instituted the earliest form of brotherhood, and we are watching with intense interest the excavations at what was formerly known as Camelot, because there is every likelihood that they will reveal some new fact of interest and significance in our history. Caerleon was our first headquarters. We propose making a pilgrimage to the seat of the excavations. The exact form the pilgrimage will take is not yet settled—or who will go—but it is anticipated that a representative body of the knights will participate."






*"(Roedd hi'n)... cloddiwr technegol a gwarchodwr maes nodedig, archeolegydd darganfyddiadau gwych, ac athrawes ragorol o'r sgiliau hynny. Roedd hi'n bartner i'w gŵr ac yn gydradd iddo. Er hynny mae hi wedi cael ei hanghofio i raddau helaeth heddiw."* - Lydia Carr.

Pam mae hi wedi cael ei hanghofio? Efallai fod yr ateb i'w gael yn rhannol mewn ffotograff a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn archifau Amgueddfa Cymru, ac a gyhoeddir am y tro cyntaf yn y llyfryn hwn.



*Ffotograff a ddarganfuwyd yn ddiweddar yng nghasgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn dangos Tessa yn "cuddio" yn adfeilion Rhufeinig y Gaer tua 1924. Ymhlith aelodau eraill y parti y mae gŵr Tessa, Mortimer Wheeler (ar y dde bellaf) a noddwr y safle, yr Arglwydd Treowen (chwith). © Amgueddfa Cymru Amgueddfa Cymru-Museum Wales*

Er bod Tessa yn ffigwr canolog yn y ffotograff hwn, a dynnwyd yn adfeilion Rhufeinig y Gaer yn 1924, hi hefyd yw'r unig un sy'n "cuddio". Mae hyn yn cyd-fynd â disgrifiad ei bywgraffydd, Lydia Carr, ohoni fel un "rhyfeddol o wibiog." Mae hi hefyd yn dangos ei synnwyr digrifwch rhyfedd yn y llun hwn. Ond mewn ffordd, mae Tessa yn dal i sefyll allan yn y llun, er ei bod hi'n fwy cuddedig.

Dywedodd llawer o'i ffrindiau ei bod yn hapus i adael i'w gŵr allblyg, bombastig, Syr Robert Eric Mortimer Wheeler, 1890-1976, (roedd Tessa'n galw "Rik" arno), ffigwr aruthrol mewn archaeoleg, gael y sylw. Ond roedd hi hefyd yn cael ei diystyru oherwydd ei bod yn fenyw ac yn wraig. Fel y dywedodd Lydia Carr yn ei blog am ei hymchwil ar Tessa:
"roedd catalogwyr (llyfrgell) naill ai heb fod â digon o ddiddordeb i nodi deunydd neu roedden nhw wedi ei ffeilio o dan Mortimer Wheeler yn lle — trosiad teg ar gyfer gyrfa Verney Wheeler."

## Lle menywod

Roedd ‘rheolau’ a disgwyliadau cymdeithasol i fenywod yn y 1920au hefyd yn cyfyngu ar Tessa. Er enghraifft, roedd disgwyl i fenywod yn y ‘proffesiynau’ mwy academaidd fel addysgu, ymddiswyddo ar unwaith pe bydden nhw’n priodi. Yn y bôn ‘nid y peth i’w wneud’ oedd bod yn briod a bod â gyrfa.

Does dim amheuaeth bod gan Tessa bersonoliaeth gadarn, benderfynol o dan y tu allan ‘tawel a mewnblyg’.

*“Nid annormaledd ynysig oedd hi, ond yn rhan o draddodiad hir, esblygol o ddeallusion benywaidd ac yn benodol archeolegwyr benywaidd. Roedd hi’n “chwyldroadol ac yn dawel, “yn cymryd rhan mewn gweithgaredd deallusol cymharol newydd, i ddynion yn bennaf o hyd ac roedd yn eithriadol o dda arno. Ond roedd hi hefyd yn gweithredu rhywfaint o dan y radar, peth ohono o’i dewis ei hun.” - Lydia Carr.*



*Tessa Wheeler mewn llun gyda’r amffitheatr a gloddiwyd yn y cloddiad yng Nghaerllion yn 1926*
*© Amgueddfa Cymru-Museum Wales*

Yn 1925, darganfuwyd amffitheatr Rufeinig Caerllion, un o safleoedd archeolegol pwysicaf yn Ewrop. Mae’n hen bryd i ni ddysgu mwy am yr “arloeswr gyda thrywel” a’r archeolegydd anhysbys, Tessa Wheeler, a greodd argraff yno.

# Cloddio’n ddyfnach



Tessa yn ifanc tua 1914, ychydig cyn ei phriodas © Caroline J Pettman

Er i Tessa gael ei geni yn Johannesburg yn Ne Affrica ar 27 Mawrth 1893, symudodd i Lundain pan oedd yn blentyn ifanc. Cafodd ei magu mewn fflat ar Ffordd Fawr Lewisham yn Ne Llundain uwchben fferyllfa ei llystad, Theophilus Davies.

Mae sôn nad oedd ei mam, Annie Agnes, a oedd wedi priodi sawl gwaith, yn briod â thad Tessa. Does gennym lawer o wybodaeth amdano, ar dystysgrif geni Tessa fe’i cofnodir fel “Doctor John Verney”. Roedd bod â chymaint o wŷr ac, o bosibl, plentyn siawns, yn dabŵ ar y pryd. Ond roedd Annie yn gymeriad cryf a phenderfynol ac ymddengys nad oedd ei gorffennol amrywiol yn cael effaith andwyol ar ei phlant. Roedd Tessa hefyd yn ffodus o fod â llystad annwyl. Er nad oedden nhw’n gyfoethog, cafodd addysg dda yn Ysgol Ramadeg Addey a Stanhope yn Deptford.

Does dim llawer o gofnodion sy’n sôn am amser Tessa yn yr ysgol ac yn sicr dim byd a oedd yn dangos y galluoedd y byddai’n eu dangos yn ddiweddarach yn ei bywyd. Dangosodd ddawn mewn Llenyddiaeth Saesneg a “Gwyddoniaeth Arbrofol” a defnyddiodd arian ysgoloriaeth i fynd i Goleg Prifysgol Llundain. Astudiodd Hanes yn y Brifysgol, ac er ei bod yn fyfyrwraig ddisglair, ni wnaeth fawr o argraff yn academaidd yn ystod ei hamser yno.

Mae’n bwysig cofio bod Archeoleg yn ddisgyblaeth newydd ac ni fyddai’n bosibl ei hastudio fel pwnc gradd ar y pryd. Yn wir, ni ddatblygodd ei diddordeb yn y pwnc nes iddi gwrdd â’i gŵr .



*Stryd Fawr Lewisham yn y 1900au © Chronicle/Alamy*

# Y “Wheelers”

Cof ei chyd-fyfyrwyr am Tessa oedd ei bod yn un a gadwai nodiadau manwl yn y Brifysgol, a’i bod yn hapus i’w rhannu. Fe’i disgrifiwyd fel “ffigwr bychan, diymhongar,” dyma’r cyfnod y cyfarfu â’r person pwysicaf yn ei bywyd personol a phroffesiynol, y dyn rhodresgar a charismatig, Rik Wheeler.



*Rik, Tessa a’i babi Michael yn Lloegr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf tua 1917 © Caroline J Pettman*

Yn 1911 y cyfarfu’r pâr ym Mhwyllgor Cymdeithas Lenyddol Coleg y Brifysgol. Roedd yntau’n fyfyriwr yn astudio’r Clasuron ac yn Is-lywydd y Pwyllgor a hi oedd yr Ysgrifennydd a’r Trysorydd. Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach daethpwyd o hyd i gerdyn a gofnodai eu bod yn aelodau ymysg eiddo Rik Wheeler, rhywbeth sy’n dangos tueddiad sentimental, peth a oedd yn anarferol iddo yn ôl y sôn.

Er eu bod yn hollol wahanol i’w gilydd, cwympodd y ddau mewn cariad a phriodi yn 1914. Cafodd eu hunig blentyn, Michael, ei eni ym mis Ionawr 1915.

Roedd bywyd yn anodd i’r pâr ifanc, wedi’u gwahanu oddi wrth ei gilydd wrth i Wheeler fynd i Ffrainc i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918). Mae ei lythyrau ati ar y pryd yn dangos cryfder y cysylltiad rhyngddynt:

*“Lladdwyd wrth ymladd” yw’r unig feddargraff y gall dyn ei gael heddiw, a’r unig deyrnged rwy’n gofyn i ti ei thalu i’r beddargraff hwn yw dy fod yn ei ddarllen â llygaid sych. Rwy’n gofyn i ti fel rhodd olaf, beidio â chrio a pheidio byth â gwisgo dillad galaru. Mae ein cariad ni yn rhy fawr i ddagrau a chrêp. Ni all ein cariad farw. Felly, bydd yn ddewr!” - Rik Wheeler*

Yn ffodus iddyn nhw ill dau, goroesodd Rik a dychwelodd at Tessa a’u mab tair oed, Michael.

# Blowsys gwyn a hosanau glas

Yn ystod y Rhyfel, roedd Tessa wedi ymuno â 'chwyldro'r blowsys gwyn', yr enw a roddwyd ar grŵp o ferched ifanc, addysgedig a gafodd swyddi clerigol neu swyddi 'desg'. Cyn hynny, swyddi i ddynion oedd y rhain, ond roedden nhw i ffwrdd yn Ewrop yn ymladd yn y Rhyfel.

Dangosodd Tessa ei doniau trwy ddod yn un o'r menywod cyntaf i fod yn syrfëwr cynorthwyol ar dreth incwm, wedi'i lleoli yn Basingstoke. Roedd y math hwn o swydd yn golygu bod yn rhaid i chi fod yn drefnus ac yn gallu trin a thrafod ffigurau. Sgiliau defnyddiol i Tessa yn ei gyrfa yn y dyfodol fel archeolegydd. Gadawyd eu babi, Michael, yng ngofal ei fam-gu a'i dad-cu.

Yn gynnar yn yr 20fed ganrif, rhoddid y label 'bluestockings' ar fenywod a oedd yn awdurdodol ac yn ddeallus agored yn aml a barn pobl oedd eu bod yn rhy wrywaidd. Term annwyl oedd hwn yn wreiddiol a oedd yn dyddio'n ôl i'r 1800au fel llysenw i glybiau merched llenyddol. Ond erbyn y 1910au roedd wedi magu arwyddocâd negyddol am fenywod oedd eisiau cydraddoldeb.




*Cerdyn post dychanol gwrth-swffragét, tua 1910*

Roedd y Swffragetiaid, a ymgyrchai dros yr hawl i ferched bleidleisio yn y 1910au, yn ffres o hyd yng nghof pobl. Ni châi menywod y bleidlais ym Mhrydain tan 1928. Roedd y menywod dewr hyn a oedd yn aml yn defnyddio "styntiau" cyhoeddus i ddenu sylw a hyrwyddo eu hachos, yn aml yn cael eu darlunio mewn modd cas yn y cyfryngau.

Un o fenywod ei chyfnod oedd Tessa ond roedd hi hefyd eisiau ei gyrfa ei hun. Mae'n cael ei disgrifio fel:

> *"Menyw addfwyn, ryfeddol o ddi-ildio, a ddefnyddiai gonfensiynau ei chyfnod i ateb ei hanghenion ei hun, hyd yn oed wrth iddi ofalu am rai pobl eraill."* - Lydia Carr.

# Darganfod archaeoleg

Does dim dwywaith amdani mai oherwydd ei gŵr a oedd yn arloeswr yn y maes y datblygodd Tessa ddiddordeb mewn archeoleg. Mae mynd ymlaen i wneud cyfraniad mor werthfawr yn y maes yn dyst i'w gallu.

Gwnaeth Wheeler ei gloddiad archeolegol cyntaf yn ystod y Rhyfel wrth fod ar leoliad yn Colchester, Essex. Cafodd lwyddiant mawr trwy ddatgelu olion Rhufeinig yno a "daliodd y byg." Roedd archaeoleg yn nyddiadau cynnar ei datblygiad a gwaith peryglus a chyntefig oedd cloddio. Mae'n sôn am "annigonolrwydd llwyr y technegau cyn y rhyfel ar gyfer adfer a dadansoddi deunydd claddedig." Felly, penderfynodd ganolbwyntio ar ddatgelu Prydain Rufeinig a chreu ffordd fwy gwyddonol o fynd ati.

Roedd darganfyddiad rhyfeddol beddrod Tutankhamun, Brenin yr Aifft, yn 1922 wedi ennyn diddordeb y cyhoedd, a daeth archeoleg yn faes "ffasiynol iawn".



*Twristiaid y tu allan i feddrod Tutankhamun ym mis Chwefror 1923. © Maynard Owen Williams*

Rhoddwyd mwy o arian ar gael ar gyfer cloddio ym Mhrydain yn y gobaith y darganfyddid trysorau cyffrous hirgolledig yma hefyd. Roedd y Wheelers yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Yna cynigiwyd rôl "ceidwad" i Rik yn yr adran archeolegol newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Cychwynnodd yntau, Tessa a Michael ar daith a fyddai'n trawsnewid eu bywydau ac yn dod yn dirnod pwysig ym maes archeoleg Cymru.

# Ioddio yng Nghymru

**Segontium, Caernarfon 1921- 1922**

*"Cafodd fy lleoliad ei symud o Swydd Essex i Gymru ond doedd fy mwriad wedi newid dim: sef integreiddio cyfran benodol o Brydain Rhufeinig drwy gloddio'n ddethol, ac ar yr un pryd esblygu techneg ddigonol..."*
*- Rik Wheeler, 'Still Digging.'*

Yn 1921 gwahoddwyd Wheeler i barhau â chloddio yng nghaer Rufeinig Segontium, ger Caernarfon. Roedd archeolegydd arall eisoes wedi dechrau cloddio ar y safle yn 1920, gwaith a ariannwyd gan y "Segontium Excavation Fund".

Cloddiodd Tessa a Rik ar y safle yn ystod eu gwyliau haf yn 1921 a 1922. Segontium oedd y cyntaf o lawer o wyliau haf a dreulion nhw yn gweithio. Roedd yn haws cael myfyrwyr i wneud y gwaith dros fisoedd yr haf ac roedd y tywydd yn well ar gyfer cloddio. Hwn oedd un o'u darganfyddiadau Rhufeinig mawr cyntaf yng Nghymru a chyhoeddodd Wheeler "Segontium and the Roman Occupation of Wales" am y gwaith hwn.

Cafodd y deunyddiau Rhufeinig crai fel crochenwaith a darnau arian, eu datgloddio a'u catalogio mor effeithlon fel y gellir eu hail-archwilio heddiw, dros ganrif yn ddiweddarach, heb anhawster. Dengys hyn pa mor dda oedd Tessa, oedd yn gyfrifol am gatalogio'r darganfyddiadau, yn y ddisgyblaeth newydd hon.



*Mortimer Wheeler (chwith) yn tywys urddasolion gwadd - gan gynnwys yr Arglwyddes Megan Lloyd George, o amgylch safle Rhufeinig Segontium yn 1922. Mae Tessa yn gwenu y tu ôl iddyn nhw (chwith pell). © Amgueddfa Cymru Amgueddfa Cymru-Museum Wales*

Mae Segontium yn safle Rhufeinig pwysig. Dyma'r gaer a ddefnyddiwyd hiraf yng Nghymru, gallai ddal dros fil o filwyr. Roedd yn rheoli ynys bwysig "Mona" (sef Ynys Môn), a gafodd ei goresgyn gan y Rhufeiniaid. Yn ystod eu gwaith cloddio, cofnododd y Wheelers dystiolaeth fod yno ffordd Rufeinig, ffynhonnau, poptai, pyllau ac olion yr adeiladau pren lle y byddai'r Rhufeiniaid wedi byw. Cadw sy'n gyfrifol am gynnal Segontium a gallwch ymweld â'r arddangosfa ar y safle i ddysgu mwy am y safle diddorol hwn.



*Golygfa o'r awyr o Segontium © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales*

## Darganfyddiadau bach, syniadau mawr


Wrth edrych ar y ffeiliau am gloddiad Segontium yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, does dim sôn am Tessa. Ond erbyn y gwaith cloddio mawr nesaf yn 1924, mae tystiolaeth o'i gwaith i'w gweld yn glir yn y llyfrau nodiadau.


Yn 1977, ail-archwiliodd yr archeolegydd, George Boon, gloddiad Segontium. Nododd fod Tessa, ynghyd â Rik, wedi nodi casgliad o ddarnau arian na chafodd eu catalogio pan ddaethpwyd o hyd iddo yn wreiddiol. Mae hyn yn dangos ei harbenigedd cynyddol mewn "darganfyddiadau bach," rhywbeth a fyddai'n un o'i harbenigeddau yn ddiweddarach. Mae hefyd yn dangos bod rhai eraill yn ymgynghori â hi fel rhywun â "gwybodaeth arbenigol" o'r safle a'i wrthrychau.

*"... Mae'n rhaid bod y Wheelers yn fodlon ar ganlyniadau eu menter ar y cyd gyntaf yn "archaeoleg o'r ddaear. "Roedden nhw'n teimlo eu fford o ran magu hyder, yntau yn enwedig yn y defnydd o haeniadau, a hithau wrth drin a chofnodi arteffactau. Yn ôl pob tebyg, roedd y cyfrifoldeb am yr arlwyaeth ac am ofalu am anghenion yr ychydig fyfyrwyr a gyflogid ar y cloddiad eisoes wedi disgyn ar ysgwyddau Tessa."* - Jacquetta Hawkes, 1982.

Nawr gallwn weld sut roedd y Wheelers yn trawsnewid archaeoleg. Ysgrifennodd Tessa nodiadau manwl, gan gatalogio darganfyddiadau yn ofalus. Roedden nhw hefyd yn defnyddio myfyrwyr archaeoleg i helpu gyda'r cloddiadau. Roedd cael "profiad yn y maes" yn gysyniad newydd ar y pryd. Nawr, wrth gwrs, mae'n rhaid i bob myfyriwr fod â phrofiad ymarferol fel rhan o'u hastudiaethau. Dywedwyd bod Tessa yn athrawes wych, gan hogi ei sgiliau ar y cloddiadau yng Nghymru.

Arloesai'r Wheelers ym maes defnyddio "haeniad" mewn archaeoleg. Haeniad yw'r astudiaeth o haenau o ddeunyddiau sydd wedi cael eu dyddodi dros amser. Gall y rhain gynnwys priddoedd, creigiau a nodweddion a weithgynhyrchwyd fel pyllau. Mae'r haenen hynaf ar y gwaelod.






*Tudalennau o lyfr nodiadau maes Tessa gan gynnwys brasluniau yn dangos yr haenau. © Amgueddfa Cymru*





*Y Wheelers yn gweithio ar gloddiad © Amgueddfa St Albans*

## Cloddiad Y Gaer 1924-1925

Y Gaer, caer Rufeinig, oedd yr ail gloddiad yng Nghymru a dyma lle mae Tessa yn dod yn fwy amlwg yn nogfennau'r safle a'r archifau. Roedd Wheeler eisiau dysgu mwy am ran ddeheuol y system ffyrdd Rhufeinig yng Nghymru a'r caerau a oedd arni.

Roedd yn gwneud synnwyr gwleidyddol cloddio yn Ne Cymru hefyd. Roedd yr Amgueddfa Genedlaethol wedi cael ei chreu i 'uno' Cymru fel un wlad a allai fod yn falch o'i hanes cenedlaethol.

Yn ei gofiannau flynyddoedd yn ddiweddarach roedd gan Wheeler atgofion pleserus o afon Wysg gerllaw oedd llawn pysgod. Buon nhw'n cloddio yn ystod haf 1924 a 1925. Cofiai yn 1955 'ar y cyfan, yr oedd, mae'n debyg, yr hapusaf a'r lleiaf pryderus o'm holl fentrau.'




*Cynllun llawr Y Gaer yn ffeiliau Wheeler*
*© Amgueddfa Cymru – Museum Wales*

# Teirw crac a darganfyddiadau mawr

Mae gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru archif fawr ar gyfer y cloddiad hwn gan gynnwys dyddiaduron y safle, gohebiaeth a manylion banc. Disgrifiodd Syr Flinders Petrie, Eifftolegydd, "grymgyrru di-ffael Mrs Wheeler a oedd yn ymddangos fel asgwrn cefn y fenter." Roedd Tessa heb ofn hefyd. Achubodd hi rai ffrindiau rhag tarw crac, gan ei yrru ymaith gyda "rhoden fesur" yn unig!

Nowell Myres, a fu'n gweithio ar gloddiad y Gaer, oedd un o'r archeolegwyr cyntaf y gellir ei ddisgrifio fel myfyriwr i Tessa. Flynyddoedd yn ddiweddarach siaradodd â'r awdur, Jacquetta Hawkes, am ei "edmygedd dwys" o Tessa fel menyw ac fel gweithiwr:

*"roedd y gwaith ar y Gaer ar raddfa eithaf cymedrol ac ni chafodd ei wneud mewn bwrlwm o gyhoeddusrwydd. Roedd Rik ei hun yn trin y cloddiad fel cefndir difyr i wyliau pysgota... Yn y cyfamser, ymdopodd Tessa â'r holl dasgau trefnu a gweinyddol y mae cloddiad yn eu cynnwys, gan gynnwys darparu prydau picnic enfawr."* - Nowell Myres

Mae'n swnio fel bod Tessa wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Ond i fod yn deg â Wheeler, doedd e ddim yn pysgota bob dydd meddai Hawkes yn ddiweddarach. Ond mae'n dangos "patrwm". Byddai'n cynnig cloddio ac yna byddai Tessa yn cynnal y gwaith mewn gwirionedd. Roedd y briodas yn dechrau bod dan straen, yn enwedig gan ei fod yn mynnu bod rhaid i'w waith archeolegol ddod yn gyntaf i'r ddau ohonyn nhw. Roedd hefyd yn anffyddlon i Tessa drwy'r amser gyda'r myfyrwragedd ifainc a oedd yn gweithio ar y cloddfeydd.



*Safle'r Gaer heddiw Hawlfraint © y Goron (2024) Cymru Wales*




*Mortimer Wheeler (canol) gyda myfyrwyr a gweithwyr ar y cloddiad o'i gwmpas. © Amgueddfa Cymru*

Roedd cloddiad Y Gaer yn un hynod lwyddiannus. Dadorchuddiodd y Wheelers safle Rhufeinig pwysig. Cafwyd hyd i nifer o eitemau, ond y pwysicaf oedd carreg fedd marchog ifanc o'r enw Candidus, sydd bellach yn amgueddfa Aberhonddu. Gwnaethon nhw hefyd ddatgelu tystiolaeth o warchodfa fawr, ysgubor lle'r oedd y Rhufeiniaid yn storio grawn a baddondy wedi'i gynhesu.

Heddiw, mae Cadw yn gofalu am y safle. Gallwch weld y wal perimedr a'r tyredau cornel yn glir o hyd. Tessa yn sbïo allan o'r adfeilion yn y llun a ddarganfuwyd yn ddiweddar o'r cloddiad, yn awgrymu ei rhan ganolog wrth redeg y fenter.

## Caerllion, y cloddiad a newidiodd bopeth

Treuliodd Tessa chwe blynedd yng Nghymru. Mae Lydia Carr yn disgrifio cyfnod Tessa yng Nghymru fel "ei gwaith gradd" gan iddo arwain ati'n dod yn Gymrawd y Gymdeithas Hynafiaethwyr. Roedd hyn yn bwysig i Tessa gan ei bod yn ei ystyried yn gymhwyster "priodol" mewn archeoleg. Anaml y byddai gan fenywod yn y dyddiau hynny ddoethuriaethau gan ei fod yn cael ei ystyried yn "rhodres Americanaidd" (yn ôl archeolegydd arall o'r cyfnod, Kathleen Kenyon).



*Amffitheatr Caerllion heddiw © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales*

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn swyddogol yn 1907 ond roedd rhaid aros am amser hir cyn iddi agor oherwydd yr oedi a achoswyd gan y Rhyfel Byd Cyntaf a'r diffyg arian yn ei sgil. Ond roedd y gwrthrychau oedd i fod i ffurfio'r adran archeoleg eisoes wedi cael eu rhoi iddi.

*"roedd y defnydd o archeoleg yng Nghymru, (ac mewn mannau eraill yn ynysoedd Prydain), i helpu i greu hunaniaeth genedlaethol unedig ar ei anterth erbyn 1907. Roedd awydd ymwybodol, wrth i Gymru ymddi-wydiannu, greu hunaniaeth genedlaethol a oedd yn fodern ac sy'n dal i gael ei hadnabod, fel un hanesyddol Gymreig." - Lydia Carr.*



*Amgueddfa Genedlaethol Cymru heddiw © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales*

Rhoddodd llywodraeth Ryddfrydol Llundain rywfaint o gyllid i'r Brifysgol ac i'r Amgueddfa Genedlaethol. Byddai wedi helpu hefyd mai David Lloyd George, Cymro, oedd Prif Weinidog Prydain o 1916 tan 1922. Byddai'r "hyfforddiant" hwn a gafodd y Wheelers yng Nghymru yn ddefnyddiol ar gyfer eu prosiect mawr nesaf yn Amgueddfa Llundain.

Hyd nes i'r Amgueddfa ym Mharc Cathays gael ei gorffen, cadwyd y casgliadau archeoleg mewn modd blith draphlith yn Llyfrgell Rydd Caerdydd. Mae G.C. Boon yn disgrifio trefniadau gweithio a byw'r Wheelers ar y pryd:

*"Gwnaeth ef (Wheeler) gydio mewn gweithgaredd: roedd ei ystafell yn hen ystafelloedd yr Amgueddfa yn Llyfrgell Caerdydd, er enghraifft, â gwelyau gwersyll lle y byddai ef a Tessa… yn cysgu pan oedd hi'n rhy hwyr i fynd adref."* - G.C. Boon

Mae gwelyau'r gwersyll hefyd yn dangos eu bod yn "byw a bod" wrth eu gwaith. Dim ond 6 oed oedd Michael Wheeler pan symudodd ei rieni i Gaerdydd ac roedd yn mwynhau astudio'r pethau diddorol a hanesyddol o'i gwmpas.



*Michael Wheeler ifanc yng Nghaerdydd, yn dal gwrthrych anhysbys. Ar y cefn mae'n dweud, yn llawysgrifen Michael fel oedolyn: "Yn y gweithdy. Sylwch ar [annarllenadwy] rhyfel yr Oes Efydd rwy'n ei drwsio! Medi: 1921." Mae'r cefndir yn dangos cyflwr di-drefn Amgueddfa Cymru ar y pryd*

Doedd Tessa ddim yn aelod swyddogol o'r "staff" yn yr Amgueddfa, ond roedd hi'n bendant yn rhan bwysig o'r tîm. Cafodd bost swyddogol yno ac roedd ganddi ei hystafell ei hun i ddelio â'r gwaith cloddio yng Nghaerllion. Mae hyn yn amlwg i'w weld yn archifau'r Amgueddfa. Cafodd Rik Wheeler ei ddyrchafu'n gyflym a'i wneud yn Gyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru pan nad oedd ond yn 33 oed yn 1924.



*Amgueddfa Cymru tua 1922 © Amgueddfa Cymru-Museum Wales*


O ganlyniad i'r dyrchafiad hwn, roedd gan Tessa a'i theulu gartref mwy parhaol o'r diwedd. Symudon nhw i mewn i dŷ gyda gardd a adeiladwyd ganddyn nhw eu hunain yn y faestref gefnog, Llandaf, yng Nghaerdydd.

Y safle yr oedd Wheeler eisiau ei archwilio nesaf oedd Caerllion, ger Casnewydd. Bu cloddiad arbrofol yno gan grŵp arall o archeolegwyr yn 1909 ac roedd hwnnw wedi dangos bod y lleoliad mewn cyflwr ardderchog. Daeth yn fwy o flaenoriaeth yn 1925 pan werthwyd tir yng nghanol y dref i'w ddatblygu. Ffurfiwyd Pwyllgor Cloddio Caerllion mewn ymateb dan arweiniad yr Arglwydd Treowen ac Esgob Mynwy. Gwasanaethodd Tessa fel ysgrifenyddes a phrif godwr arian tan 1931, ymhell ar ôl iddi adael Cymru. Dyma fyddai "Ei safle".

*"Caerllion oedd safle Verney Wheeler, efallai yn fwy nag unrhyw un arall. Anaml y cydnabyddir ei chyfraniad o hyd, gyda'r rhan fwyaf o'r clod yn mynd i Wheeler. Ond trwy unrhyw fesur, hi a gyflawnodd waith cloddio gwirioneddol yr amffitheatr a fu'n ennyn diddordeb y cyhoedd yng Nghaerllion, ac felly paratôdd y ffordd ar gyfer y gwaith archeolegol sydd wedi parhau yno yn ysbeidiol byth ers hynny. Yr amffitheatr yw'r un sydd wedi'i chloddio'n fwyaf cyflawn ym Mhrydain o hyd."* - Lydia Carr.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth ysgrifenedig fod Tessa wedi chwarae rhan allweddol yng ngwaith cloddio Caerllion. Roedd hi ar y safle am wyth mis, yn llawer hirach na'r ddau gyfarwyddwr safle arall ac roedd hi ar ei phen ei hun am y rhan fwyaf o'r amser hwnnw. Roedd ei gŵr yn Llundain a chadwodd Nash-Williams, a gymerodd y safle drosodd pan adawodd hi, mewn cysylltiad â hi gan fod angen ei chyngor arbenigol arno.

Hi hefyd oedd yr "ysgrifenyddes anrhydeddus," (a olygai na châi ei thalu), Cronfa Cloddio Caerllion, swydd yr oedd ynddi hyd 11 Gorffennaf 1931. Hyd yn oed ar ôl iddi adael Cymru, parhaodd i helpu drwy godi rhoddion nad oedden nhw'n dod o Gymru. Mae cofnod yng Nghymdeithas Hynafiaethau Llundain yn rhestru rhodd o £10 i Mrs Wheeler am "Caerllion" mor hwyr â 1929.



CAERLEON EXCAVATION COMMITTEE


PRESIDENT: MAJOR-GENERAL THE RIGHT HON. LORD TREOWEN, C.B., C.M.G.
CHAIRMAN: THE RIGHT REVEREND THE LORD BISHOP OF MONMOUTH.
HON. TREASURER: MAJOR-GENERAL SIR GODFREY WILLIAMS, K.C.I.E., C.B., LANSOR, CAERLEON, MONMOUTHSHIRE.
HON. SECRETARY: MRS. R. E. MORTIMER WHEELER, F.S.A., LANCASTER HOUSE, ST. JAMES'S, S.W.1.

II

digging. In addition to the £126 a year for Prysg Field interest, we must find some money for the Williams Charity dig.

I have written to Godfrey Williams suggesting an Executive meeting for June 29th — by which time we should know more or less how funds are coming in. We have a very good start for this year and I fully expect that we shall get in more than we actually need; but ~~in the~~ we must not anticipate it by expenditure on work which might possibly be equally well done next year.

*Un o lythyrau Tessa am ariannu'r Cloddiad gyda thoriadau'n disgrifio darlithoedd cyhoeddus i godi arian am Gaerllion.*
*© Amgueddfa Cymru – Museum Wales*



## Tenby Museum Lecture.

LAST NIGHT. 10-2-

"CAERLEON AND ITS EXCAVATION."

At the Church House last (Thursday) night a further lecture in connection with the Tenby Museum series was delivered by Mr. V. E. Nash-Williams, M.A. (Keeper of the Department of Archæology at the National Museum of Wales, Cardiff), who selected as his subject, "The Roman Frontier Fortress of Caerleon and its Excavation." Mr. R. E. Hulton, J.P. (Chairman of the Museum Committee) presided over a large and interested audience.

In the course of his lecture, which was illustrated by lantern pictures, Mr. Nash-Williams described the work (which was made possible through the generosity of the proprietors of the "Daily Mail,") carried out at Caerleon during last year, and showed in vivid style how these labours shed further light on the Roman legionary fortress of Isca, and its significance as the farthest-flung military base of the Roman Empire in the north-west. It was certainly fitting, and perhaps portentous, that the Second Augustan Legion, whose quarters Caerleon was to become, was first led in its victorious march across southern England by Vespasian, a future Emperor of Rome. This great commander appears to have led the Legion into Somersetshire, from where, being then a young general in the Roman regular army, he was recalled to the capital of the Empire in 49 A.D. In the following year the Second Augustus Legion crossed over into South Wales, and then commenced a twenty years' struggle with the native Silures, whose name soon became a household word throughout the Empire for fierce and gallant resistance. It was not until the year 75 A.D. that the tribesmen were eventually defeated, and then only after practically the whole tribute had been decimated. It was now that Caerleon was founded as the base fortress on which depended the Roman grip of south-western Britain. In advance of Caerleon an elaborate network of auxiliary forts and roads was constructed, which enmeshed the whole of South Wales. With rare exceptions these are largely represented by modern towns in Wales whose names begin or end with "caer" or "gaer." A case in point is Cardiff, where the name indicates one of those original forts built in 75 A.D., and whose later reconstruction in 300 A.D. is still represented by the ragged pieces of Roman wall incorporated in the present curtain-wall of Cardiff Castle. Of Caerleon itself a good deal of definite knowledge has been established as a result of the recent excavations, exploration having shown that the whole site is teeming with Roman foundations, for the most part in an excellent state of preservation. Within the mile and a quarter enceinte of the fortress are the great military buildings, whilst without are the temples, baths, shops, and houses of the official civil settlement. These later are known to lie beneath the present Caerleon Racecourse. Normally, this civil settlement attached to the legionary fortress developed later—as at York and Chester—into an important city. In the case of Caerleon, however, such development was thwarted by an accident of geography, namely, the presence of a more favourable site three miles down the Usk at Newport. Therefore, strictly speaking, Caerleon's heritage of greatness has been filched by modern Newport, so that, indirectly, Newport, like Cardiff, owes its development to the activities of the Second Legion. During the present year the Caerleon Excavation Committee proposes to continue the excavations of the barrack buildings within the fortress, and has already received contributions of funds for this purpose, including a sum of three hundred dollars from America.

# Chwaraeon eithafol, adeg y Rhufeiniaid

Roedd Caerllion, yn debyg i Segontium a'r Gaer, yn gyn-anheddiad Rhufeinig adnabyddus ac roedd ei enw Cymraeg yn adlewyrchu'r hanes cynnar hwnnw. Mae enwau lleoedd sydd â "Caer" neu "Gaer" ynddyn nhw yn gliwiau mai aneddiadau Rhufeinig yw'r rhain, a elwir yn "Ddinas y Llengoedd." Roedd anheddiad Isca yn dyddio o tua OC75 pan oedd y "Legio II Augusta" yn yr ardal fel rhan o'r strategaeth Rufeinig i orchfygu'r Silwriaid, llwyth Celtaidd ffyrnig yn yr ardal.

Cyn bo hir, gwnaed Isca yn anheddiad parhaol a sefydlwyd tref soffistigedig yno. Roedd hyd yn oed gan y milwyr y ganolfan hamdden gyntaf y gwyddys amdani, gyda baddonau, pwll nofio a sawna! Caerllion hefyd sydd â'r unig farics llengfilwyr Rhufeinig sydd i'w weld yn Ewrop o hyd. Does dim amheuaeth i lwyddiant cloddiad yr amffitheatr arwain at gloddiadau yn y dyfodol a ddatgelodd drysorfa o hanes cyfnod y Rhufeiniaid yng Nghaerllion.



*Baddonau Caerllion © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales*

Roedd gan y safle hefyd borthladd da ar afon Wysg gyda mynediad i'r môr. Roedd yn adlewyrchu anterth cyflawniad milwrol Rhufeinig yn yr ardal. Erbyn 90 OC, roedd y fersiwn gyntaf o'r amffitheatr eisoes yno, ac roedd Isca yn ganolfan bwysig ym meddiannaeth y Rhufeiniaid. Yn yr amffitheatr bu gladiatoriaid yn ymladd hyd at farwolaeth yn oes y Rhufeiniaid. Byddai miloedd o bobl yn dod i weiddi hwrê yn y sioeau gwaedlyd hyn. Chwaraeon eithafol, adeg y Rhufeiniaid

# Y Forð Gron ynteu Aðfail Rhufeinig?

*"Mae safle tref Rufeinig Caerllion yn Sir Fynwy yn unigryw o ran ðwy agweðð bwysig. Dyma'r unig gaer lengol ym Mhryðain lle y mae unrhyw le sylweððol ar gael o hyð i'w gloððio tra boð ei gysylltiaðau â rhamant Arthuraiðð yn creu ðiððorðeb sy'n ehangach nag arfer yn achos safleoeðð Rhufeinig" - Dyfyniað o lythyr gan Rik Wheeler at Olygyðð The Times, 20 Ion 1925.*




*Paentiad yn dangos y Brenin Arthur a Marchogion y Ford Gron 1405-1407 © Gallica*

Neidiodd y wasg ar stori anghredadwy y gallai fod "cysylltiad" rhwng safle amffitheatr Caerllion a'r Brenin Arthur chwedlonol a marchogion y Ford Gron. Roedd Sieffre o Fynwy, yr ysgolhaig o'r 12fed ganrif, wedi ysgrifennu i Arthur gael ei goroni yng Nghaerllion ac mai adfeilion yr amffitheatr oedd gweddillion Bord Gron y Brenin Arthur mewn gwirionedd. Roedd chwedlau Arthuraidd yn boblogaidd eto erbyn diwedd y 19eg ganrif. Roedd hyn yn ddiolch yn rhannol i lwyddiant y casgliad epig o 12 cerdd gan y bardd Saesneg, Alfred, yr Arglwydd Tennyson, "Idylls of the King ".

Roedd gan y papur newyddion y 'Daily Mail' ddiddordeb yn y straeon hyn ac ariannodd y papur hwnnw'r gwaith cloddio yng Nghaerllion ar yr amod mai dim ond y Daily Mail a gâi'r newyddion diweddaraf am y cloddiad" Arthuraidd ". Roedd yr Wheelers yn ddigon call i beidio â dadlau yn erbyn y syniad rhamantus hwn gan eu bod yn gwybod y byddai'r gwaith cloddio yn ddrud ac roedd gwir angen yr arian arnyn nhw. Mae'r toriadau papur newydd yn ffeiliau Wheeler yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn dangos obsesiwn y wasg gyda'r stori ar y pryd. Roedd y stori'n ennyn diddordeb (er nad oedd yn wir), ac roedd yn sicr o werthu papurau newydd.

Yn ystod y gwaith cloddio, gwariodd y Mail dros £3,000 i’w ariannu. Prynodd y papur newydd y safle pan oedd y cloddiad drosodd, a’i gyflwyno i’r genedl trwy ragflaenydd Cadw, y Swyddfa Waith. Mae Cadw yn parhau i gynnal y safle heddiw.



ROMANS AND ROMANCE.

CAERLEON IN FACT AND LEGEND.

TENNYSON RELICS.


WHAT EXCAVATIONS MAY REVEAL.

Caerleon of to-day is little more than a wayside village or, one might almost say, suburb of Newport whose narrow, crooked streets are an obstruction to the highway. But few places in the country are richer in antiquarian and romantic interest. That interest will be increased by the announcement that the Round Table Field is to be excavated, not, indeed, to find such relics as may still exist of King Arthur and his knights, but to lay bare walls and remains of surer history and greater antiquity than the Arthurian legends. The latter remain still purely legendary. At any rate, no concrete survivals in stone or bronze testify to our generation the reality of King Arthur and his knights. But the legend exists in various forms in all countries, and Tennyson gave to it a Welsh setting.

*Toriad o’r Western Mail, Mawrth 1926*


Casglodd y Wheelers roddion eraill hefyd a chawsant y syniad athrylithaidd o ofyn am dâl mynediad bach gan bobl a oedd am weld y cloddiad “ar waith.” Weithiau byddai’r ymwelwyr hyn braidd yn niwsans ac mae Tessa yn sôn am hyn yn un o’i llythyrau, gan ddangos nad oedd yn fodlon dioddef ffyliaid!

*“Mae’r Western Mail heddiw ychydig yn bell ohoni. Yr “ymwelwyr” ddydd Sadwrn oedd Miss Williams, The Mount, a allai fod yn dwpsen y gallai ei hymddygiad ar ddod o hyd i grochenwaith a darnau arian fod wedi rhoi rheswm digonol ar gyfer sylwadau pendant, a dau o’m pwyllgor. Awdurdodwyd y cloddio, mae’r darganfyddiadau nad ydyn nhw’n cynnwys mwclis (un glain o fath arferol),yn fy meddiant, wedi’u labelu’n briodol. Mae’r “cynorthwywyr” achlysurol yma yn aml yn flinderus. Mae’n siŵr gen i eich bod yn gwybod hynny Yr eiddoch yn gywir, TVW.”*




*Cloddiad yr amffitheatr yng Nghaerllion yn 1927 © Amgueddfa Cymru – Museum Wales*

Roedd meithrin perthynas â'r wasg yn denu beirniadaeth ar y pryd a'r honiad oedd ei fod yn rhy "awyddus am gyhoeddusrwydd." Ond roedd Tessa a Rik yn gwybod ei bod hi'n bwysig ennyn diddordeb y cyfryngau. Byddai gwneud archaeoleg yn hygyrch ac yn hysbys i'r cyhoedd yn annog mwy o gyllid ac yn ei gwneud yn bwnc astudio credadwy.




*Argraff arlunydd o amffitheatr Caerllion fel y gallai fod wedi edrych ar ei hanterth o lyfr Rik Wheeler, Nash Williams a Victor Erle ar y Cloddiad a gyhoeddwyd yn 1970*



W. Nash. Williams.

A PILGRIMAGE OF KNIGHTS

TO SEE THE CAERLEON EXCAVATIONS.

ARTHURIAN LEGEND.

SPONSORS ANXIOUS FOR NEW FACTS.

FROM OUR SPECIAL CORRESPONDENT.

LONDON, Tuesday.

An interesting event of the coming spring is the proposed pilgrimage of a party of the Knights of the Round Table to the excavations at Caerleon.

Sir Trevor Dawson, Bart., Knight President of this very ancient brotherhood, made interesting allusion to its activities the other day. "The excavations at Caerleon," he said, "are of especial interest to us, inasmuch as valuable information bearing on the Arthurian cycle may be revealed on that famous spot."

Referring to the constitution of the Knights, Sir Trevor said the Order might be regarded as possessing the nature of an ancient city guild, both in constitution and work, the only difference being that its activities were more universal and more national.

Cymerodd Tessa yr awenau ar y cloddiad yn swyddogol ar 22 Hydref 1926 gyda'r 'Daily Mail', yn parhau i ofyn am ragor o ddiweddariadau. Gymaint, fel roedd pwysau cyson ar y tîm i barhau i ddangos darganfyddiadau newydd. Wrth gwrs, roedd darganfyddiadau anhygoel, ond hefyd cyfnodau 'tawelach' pan nad oedd bob amser yn bosibl datgelu darganfyddiad newydd dramatig.

*Dywedwyd y byddai rhywfaint o dwrio yn digwydd mewn cypyrddau i gyflwyno "darganfyddiadau newydd" nad oedd o reidrwydd yn hollol 'newydd'...*

*Toriad o'r Daily Mail "yn awyddus i gael ffeithiau newydd"*
*© Amgueddfa Cymru*

# Tessa wrth y llyw

Roedd cau ffatrïoedd a phyllau glo yn golygu bod diweithdra yng Nghaerllion yn broblem ddifrifol yn 1926. O ganlyniad, roedd ganddyn nhw weithlu ar gael i helpu ar gloddiau'r Gaer a Chaerllion. Roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr nad oedden nhw wedi cael hyfforddiant yn gyn-filwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd yn eithaf soffistigedig ar y pryd. Dyluniwyd a gosodwyd rheilffordd ysgafn wedi'i phweru gan ddisgyrchiant gan reolwr cyffredinol y safle, J.V. Bowen, a oedd wedi gweithio i Tessa yn y Gaer. Cafodd bachgen fferm ifanc o'r enw Cecil Davies ei gyflogi gyda cheffylau ei dad i dynnu certi o bridd a malurion.

Dim ond bachgen yn ei arddegau oedd Cecil Davies yn ystod y cloddio. Mewn cyfweliad â Lydia Carr yn 2006, roedd ei atgofion o Tessa'n dwymgalon ac yn annwyl. Doedd ef ddim mor glodwiw am ei gŵr! Fe'i disgrifiodd ef fel dod i fyny 'unwaith y mis i edrych dros y gwaith cloddio wedi ei wisgo i fyny yn ei ddillad gorau'.

Roedd y gweithwyr yn dwlu ar Tessa. Yn wir, dywedodd Davies, "Fe wnes i syrthio amdani ." Cofiodd daith bws i Gasnewydd a dalodd Tessa Wheeler amdani ei hun, fel y gallai'r dynion eu gweld eu hunain mewn ffilm newyddion yn y sinema, wrth eu gwaith yn y cloddiad. Mae hyn yn dangos caredigrwydd Tessa a'i sgiliau wrth reoli tîm gwrywaidd mewn cyfnod lle nad oedd menywod fel arfer wrth y llyw.

Mae Cecil yn disgrifio sut y gofynnwyd i'r gweithwyr roi unrhyw beth diddorol y daethon nhw o hyd iddo o'r neilltu fel y "Gallai Mrs Wheeler ddod i'w esbonio". Pe bai'n ddarganfyddiad addawol, byddai'n cael ei symud i swyddfa'r safle a'i lanhau. Roedd y dynion yn gweithio o wyth tan bump o'r gloch ac yn cael swllt a dwy geiniog y dydd yn dâl, ynghyd â swllt arall pe bydden nhw'n dod o hyd i ddarn o arian.



*Llun o dîm cloddio amffitheatr Caerllion, a dynnwyd yn 1927. Tessa Wheeler yw'r unig fenyw, yn sefyll yng nghanol yr ail res gyda llyfr nodiadau yn ei llaw. Mae Cecil Davies yn eistedd ar y dde yn y rhes flaen. (Llun trwy garedigrwydd Caerleon Net)*


Tessa was known to wear a brown skirt suit to excavate, no matter what the site conditions. This was in contrast to the female students who were dressed more daringly for the time in shorts and jodhpurs (horse riding trousers). Lydia Carr theorises that Tessa had to maintain a comforting, easily recognisable 'femininity.' It was important that she wouldn't be seen as a threat by the males working alongside her, as well as the powerful men who controlled funding and publications.

Tessa was usually the only woman on site. Imagine how that would have felt a hundred years ago when women still hadn't been given the right to vote. It took confidence and a steely determination hidden behind the seemingly gentle façade to be so successful in such a new field for men, let alone women.

## Darganfyddiadau hynod ddiddorol

Yn dechnegol cynhelid y cloddiad mewn ffordd "fodern", gyda'r arwyneb cyfan yn cael ei dynnu mewn haenau rheolaidd. Yn anhygoel o beth, cafodd cyfanswm o bron i 30,000 tunnell o bridd ei gloddio, ei archwilio a'i gario i ffwrdd. Roedd hyn yn costio ychydig llai na 10 ceiniog y dunnell, a oedd yn llawer o arian ar y pryd.

Un o'r darganfyddiadau mwyaf diddorol yn ystod cloddio'r amffitheatr oedd "tabled" plwm. Roedd tua 10cm sgwâr ac roedd ganddo ddau dwll hoelion yn y brig fel y gellid ei gysylltu â'r wal. Roedd yr arysgrif yn Lladin:



DONNA NII
MIISIS DO TI
BI PALLIIVM
IIT GALLICVLAS
QVI TVLIT NON
REDIMAT N**
***** SANGVINII
SVA

*"Arglwyddes Nemesis, yr wyf yn rhoi i chi glogyn a phâr o esgidiau; gadewch i'r sawl a'u cymerodd beidio â'u hadbrynu (ac eithrio ag â'i waed ei hun."*

Mae'r awdur yn dweud wrth y dduwies, Nemesis, "Cymerwch fy mantell a'm hesgidiau: a dim ond eu rhoi i'r lleidr a'u cymerodd os yw wedi cael ei ladd neu ei anafu."

Mae'n ymddangos bod yr awdur eisiau i'r dduwies drefnu marwolaeth y person a ddygodd ei glogyn a'i esgidiau!

Does neb yn gwybod pwy yw'r awdur. Efallai mai milwr neu gladiator ydoedd. Credir bod cysegrfa i Nemesis ychydig y tu allan i fynedfa'r amffitheatr. Roedd yn gyffredin i'r Rhufeiniaid adeiladu cysegrfeydd i'w duwiau, gan ofyn iddyn nhw eu helpu, neu yn yr achos hwn, ddial drostyn nhw. Allwch chi ddychmygu pa mor gyffrous fyddai wedi bod i Tessa a'i thîm ddod o hyd i'r eitemau rhyfeddol hyn a ddatgelodd gymaint am y ffordd Rufeinig o fyw bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl?

## Pethau i'w gwneud

Roedd llyfrau nodiadau Tessa yn dechnegol ac yn ymarferol. Chawson nhw mo'u trefnu yn ôl y dydd, ond yn ôl nodweddion y safle, roedd yr arfer hwn yn arloesol ar y pryd.


*"Mae ei chynlluniau yn llawer mwy gwyddonol a thechnegol, yn ago-sach o ran eu golwg i'r rhai mewn adroddiad safle modern. Yn y bôn, gwaith rhywun sy'n gyfarwydd ag archeoleg Brythonig-Rufeinig ydyw, gwaith rhywun sy'n gallu ei ddehongli yn y fan a'r lle."* - Lydia Carr.

Mae'n wefreiddiol gallu darllen llyfrau nodiadau Tessa o hyd yn archif Amgueddfa Genedlaethol Cymru a theithio'n ôl mewn amser i'r cyfnod cyffrous hwn. Maen nhw'n darparu llawer o doriadau diddorol i'w phersonoliaeth gymhleth ac annwyl.

Byddai Tessa hefyd yn defnyddio ei llyfrau nodiadau personol i gadw ei nodiadau personol neu restrau o bethau i'w gwneud, yn ticio ei thasgau wrth iddi eu cyflawni. Mae'n amlwg ei bod yn drefnus, yn rhoi sylw i fanylion ac mae ei nodiadau wedi sefydlu'r ffordd y mae archeolegwyr yn ysgrifennu nodiadau ar y safle hyd heddiw.

Mae un o'i rhestrau (ar y chwith yn y llun) yn dangos rhai o'r tasgau anhygoel yr oedd hi'n eu jyglo:

- Drafftio apêl.
- Rhybudd ynglŷn â manylion yr amffitheatr yn ymddangos yn y wasg.
- N.W. (ei gŵr) - Gofyn am ddolen y bowlen siâl.
- Ysgrifennu at yr Archesgob.




*Un o restrau Tessa o bethau i'w gwneud yn ystod cloddiad Caerllion*
*© Amgueddfa Cymru*

Yn fwyaf anarferol, mae hi wedi copïo gweddi Gymraeg yn ofalus, gan ddechrau

*'Grant, oh God thy refuge, and in thy refuge, strength'*

mewn cofnod o fis Hydref 1926. Heb fod yn arbennig o grefyddol, mae hyn yn awgrymu'r straen mawr yr oedd yn ei deimlo wrth sicrhau bod cloddiad mor uchel ei phroffil yn un llwyddiannus.

Er i Tessa ymgynghori â'i gŵr ac archeolegwyr eraill am rai darganfyddiadau yng Nghaerllion, yn bennaf hi oedd wedi nodi beth oedd y darganfyddiadau ar ei phen ei hun. Mae hyn yn dangos dechrau ei thalentau i allu adnabod eitemau mewn "chwinciad" ar ôl eu glanhau, rhywbeth a gafodd ei gofio flynyddoedd yn ddiweddarach gan ei myfyrwyr.




*Llun o'r awyr o gloddiad Amffitheatr Caerllion, Surrey Flying Services. © Archaeologia Cyf. LXXVIII*

Roedd Tessa hefyd yn ysgrifennwr da. Ysgrifennodd adroddiad cryno am Gaerllion ym mis Mehefin 1928, gyda pharagraffau cyfan yn cael eu "hailddefnyddio" yn ddiweddarach gan ei gŵr ar gyfer ei adroddiad swyddogol:

*"Yng Nghaerðyðð felly, ar y naill law ac yn Richborough ar y llaw arall, y mae'n rhaið i ni chwilio am hanes Caerllion yn y beðwareðð ganrif, ac o bosibl yn yr amffitheatr syðð weði'i glaððu ar ochr muriau Richborough y gellir ðoð o hyð i'r ganrif goll o "Forð Gron y Brenin Arthur eto."*

## Amser mynd

Dim ond am ddwy flynedd y bu Tessa a Rik yn byw yn eu tŷ yn Llandaf. Roedd Wheeler yn gweld eisiau Llundain yn ormodol a derbyniodd rôl Ceidwad yn Amgueddfa Llundain. Cymerodd yr archeolegydd a oedd yn gyfaill da i Tessa, Nash-Williams, yr awenau yng nghloddiad Caerllion yn 1927. Trosglwyddwyd y darganfyddiadau o'r amffitheatr i Amgueddfa Caerllion.

*"Mewn ystyr fwy, mae blynyddoedd Verney Wheeler yng Nghymru yn symbol carlam ar gyfer datblygu a normaleiddio archeolegwyr benywaidd yn y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd. Yn fuan iawn ildiodd ei hamser fel gwraig dawel a chymwynasgar yn Segontium i rôl fwy swyddogol ceidwad y cyfrif a'r cofiadur yn y Gaer. Yn dilyn yn fuan ar waith y caerau, sicrhaodd ei chyfnod o gyfarwyddo Cloddiad Caerllion yn annibynnol... ei bod yn archeolegydd yn ei rhinwedd ei hun."*
*- Lydia Carr.*

Roedd Tessa yn cynnal ei chysylltiadau â Chymru o hyd, yn enwedig â'i ffrind Nash-Williams ac â Chaerllion. Rhoddodd staff yr amgueddfa anrhegion ffarwel iddynt, gan gynnwys cês sigarennau arian yr un. Roedd y ddau yn ysmygwyr trwm, peth cyffredin yn y cyfnod hwn. Rhywbeth arferol i Tessa oedd ysmygu hyd yn oed mewn "ffosydd hyd at ei gwddf yn y glaw"! Trefnodd cymuned archeolegol Cymru gronfa dystiolaethol iddyn nhw ill dau. Disgrifiodd y "Western Mail" y seremoni "trosglwyddo":

*"rhoddodd Cadeirydd y gronfa... siec i Mrs Wheeler am swm sylweddol fel arwydd o werthfawrogiad eu cyfeillion o'r Dywysogaeth. Ymatebodd Mrs Wheeler mai uchelgais ei bywyd oedd bod o gymorth i'w gŵr yn ei ymchwil archeolegol a bod y geiriau caredig a ddywedwyd yn ei helpu i feddwl nad oedd hi wedi methu'n llwyr yn yr uchelgais hwnnw. (Clywch, clywch)."*

Sylwch fod Tessa yn ildio i'w gŵr yma, yn hytrach nag yn cymryd clod am ei llwyddiannau ei hun yn yr Amgueddfa. Fodd bynnag, talodd "South Wales News" deyrnged i Tessa:

*"Ym Mrs Wheeler, roedd gan Dr Wheeler bennaeth staff gwych, un a oedd â diddordeb mawr ac yn alluog."*

## Darllenwch bopeth amdani

Roedd gan y wasg ddiddordeb mawr yn y Wheelers. Gwnaeth South Wales News gyfweld â Tessa ar 20 Mawrth 1926. Disgrifiodd "Gohebydd" y papur Tessa yn nhermau disglair hefyd. Mae'r erthygl newyddion yn datgelu i'r Wheelers fod yn brysur nid yn unig yng Nghaerllion ond mewn rhannau eraill o Gymru hefyd:

*"Bydd Dr Wheeler yn symud i Lundain yn golled ddwbl i Gymru ac yn enwedig i gylchoedd archeolegol y Dywysogaeth, oherwydd y gwaith gwerthfawr a wnaed gan Mrs Wheeler ar y cyd â'i gŵr... I gynlluniau Dr Wheeler ... mae hi wedi cyfrannu ei brwdfrydedd brwd a'i gwybodaeth arbenigol.*

*"Dros dri thymor, buon nhw'n cloddio yng Nghaernarfon ac mae meysydd eraill lle maen nhw wedi gweithio yn cynnwys Mynydd Margam... cylch cytiau ym Mlaenrhondda, Cae Ras Trelái a Chastell Morgraig... Ar y pynciau hyn ac ar bynciau eraill mae hi wedi darlithio'n helaeth ledled y Dywysogaeth. Mae ganddi ddiddordeb brwd mewn rhan menywod mewn bywyd cyhoeddus ac mae'n aelod o gyngor Cymdeithas Dinasyddion Merched Caerdydd."*

# Mosaics and grids

Aeth Tessa a Rik ymlaen i sefydlu'r Sefydliad Archaeoleg yng Ngholeg Prifysgol Llundain gyda'i gilydd. Roedd Tessa hefyd yn gyfarwyddwr safle ar gyfer cloddiad cyfnod Rhufeinig pwysig yn Verulamium yn St Albans rhwng 1930 a 1933. Roedd darganfod mosaigau gwych ar y safle yn rhoi llwyddiant arall iddi. Peintiodd ddyfrlliwiau hyfryd o'r mosaigau, roedd hi wedi dysgu gwneud hyn wrth arsylwi arbenigwyr Eidalaidd ar ymweliad â "Môr y Canoldir.



*Tessa yn cloddio'r llawr mosaig yn Amgueddfa Verulamium © St Albans*



*Paentiad dyfrlliw gan Tessa o un o'r mosaigau enwocaf yn Verulamium.*
*© Amgueddfa St Albans*

Yn 1932, disgrifiodd yr Evening Standard waith Tessa yn "codi" palmentydd mosäig mewn llais a oedd yn edmygus, ond yn nawddoglyd:

**"DIM OND UN PERSON A ALL EI WNEUD A MENYW YW HONNO.**

Mae Mrs Mortimer Wheeler yr archeolegydd benywaidd enwog yn teimlo'n falch iawn ohoni ei hun ar hyn o bryd oherwydd ei bod wedi gwneud rhywbeth na all neb arall ei wneud. Yn ystod cloddiad Verulamium cafwyd hyd i rai palmentydd mosaig godidog sy'n perthyn i ystafelloedd ymolchi helaeth palas Rhufeinig. Roedd Mrs Wheeler, a fu'n goruchwylio'r cloddiadau hyn ar ran ei gŵr… eisiau i'r palmentydd hyn gael eu codi a'u symud i'r amgueddfa fach ar y safle

"Darganfuwyd mai'r unig bobl a allai wneud y gwaith oedd cwmni o arbenigwyr mosaig Eidalaidd yn Llundain a oedd wedi byw a gweithio ymhlith mosaigau {....} Roedd y gwaith yn anodd ac yn gostus. Does dim llawer ym mhwrs y daith. Pan oedd y llawr nesaf yn barod i'w godi, penderfynodd Mrs Wheeler ei wneud ei hun. Roedd yr arbenigwyr wedi'u dychryn. Roedden nhw hyd yn oed yn sibrwd, "Fandaliaeth! Caiff ei ddinistrio."…. Ac erbyn hyn mae hi wedi codi'r llawr hwnnw'n llwyddiannus

Unwaith eto, mae stori'r mosaig yn dangos penderfyniad, dyfeisgarwch ac arbenigedd Tessa. Yn ystod eu hamser yn Verulamium, datblygodd y Wheelers ddull o gloddio a oedd yn cynnwys cloddio sgwariau mewn grid. Byddai'r waliau'n cael eu cadw rhwng y sgwariau felly roedd yn haws astudio haenau'r ddaear. Datblygwyd y dechneg hon ymhellach gan Kathleen Kenyon, archeolegydd a myfyriwr enwog i Tessa, pan oedd hi'n cloddio yn Jericho. Mae'r "Dull Wheeler-Kenyon" yn cael ei ddefnyddio o hyd mewn cloddiadau hyd heddiw.



*Delwedd adnabyddus yn dangos techneg cloddio "grid bocsys" Wheeler-Kenyon yng Nghastell Maiden tua 1934 © Cymdeithas yr Hynafiaethwyr*

# Enwogrwyðð byrhoeðlog


Os oedd hi'n "archeolegydd benywaidd enwog" yn ei dydd, pam cafodd Tessa ei hesgeuluso cyhyd gan haneswyr? Bu'n cloddio, yn cyhoeddi, yn dysgu, yn ymddangos mewn erthyglau newyddion ac roedd yn aelod o'r cymdeithasau academaidd. Ond dydy hi ddim fel arfer yn cael ei chynnwys gydag archeolegwyr benywaidd cyfoes fel Dorothy Garrod na Gertrude Caton Thompson. A yw hyn oherwydd, yn wahanol i'r ddwy fenyw arall, ei bod hi hefyd yn wraig a oedd yn gweithio yn yr un maes â'i gŵr?

Enghraifft arall o archeolegydd benywaidd adnabyddus fyddai Margaret Murray (1863-1963). Mae hi'n llawer mwy adnabyddus am ei gwaith. Yn wahanol i Tessa, a fu farw'n annhymig yn 43 oed, roedd Murray yn ddibriod a buodd fyw yn hir, gan gyrraedd ei phen-blwydd yn 100 oed yn 1963. Roedd ganddi fwy o amser i wneud argraff.

Gellid dweud yr un peth am Rik Wheeler, a fu farw yn 85 oed. Aeth ymlaen i gloddio ac i ysgrifennu am ddeugain mlynedd arall ar ôl i Tessa farw. Nid yw'n syndod, o ystyried y rhagfarn o ran rhyw ar y pryd hefyd, bod y gwaith a wnaeth gyda'i phriod, yn aml yn cael ei briodoli iddo ef yn unig.

Eto i gyd, helpodd Tessa "ferched y jodhpurs" i gael eu derbyn a'u parchu fel archeolegwyr benywaidd. Roedd hi'n meithrin ei myfyrwyr benywaidd gymaint â'r dynion.

## Rhwyðwaith Gwirioneðϑol Arloesol: Effaith Tessa Verney Wheeler




*Mae Diagram Tessa Verney Wheeler TrowelBlazers Network yn dangos dylanwad Tessa ar yr archeolegwyr benywaidd a'i dilynodd.*
*© Saya Naumann (2022)*

## ae'r huð weði mynð...

Roedd Tessa bob amser wedi llosgi'r gannwyll ar y ddau ben, gan weithio'n galed, ac ymladd pyliau o afiechyd a oedd yn cynnwys problemau stumog a phylau o lewygu. Ar ôl llawdriniaeth fach, bu farw'n sydyn o emboledd ysgyfeiniol yn yr Ysbyty Dirwestol Cenedlaethol yn Llundain ar 15 Ebrill 1936.

Er i Rik Wheeler fynd ymlaen i gael bywyd llwyddiannus a hir, roedd llawer o "hud y Wheelers" wedi marw gyda Tessa. Nododd Veronica Carr, archeolegydd a oedd ynghyd â dau arall yn rheoli gwaith maes safle Maiden Vale ar ôl marwolaeth Tessa:

*"Erbyn 1936 roeðð huð y bryn mawr weði ðiflannu: Roeðð Mrs Wheeler weði marw. Mewn sawl fforðð roeðð Rik Wheeler yn berffeithyðð gyðag ysfa ac uchelgais onð heb amyneðð gyða phethau bach rheðeg pethau o ððyðð i ððyðð."*

Tessa oedd yr un oedd yn cadw'r ddysgl yn wastad. Dyfynnwyd Rachael Maxwell-Hyslop, myfyrwraig arall yng Nghastell Maiden, yn ei hysgrif goffa fel un a ddywedodd am Rik Wheeler:

*"roeðð ganððo ððisgleirðeb am ððoð o hyð i safleoeðð – am ble y ðylech gloððio, onð treulioðð lawer iawn o amser yn chwarae o gw-mpas gyða'r myfyrwyr benywaiðð pert."*

Mae Lydia Carr yn disgrifio sut y cafodd Tessa ei brifo'n ddwfn gan ei gŵr, ond roedd yn ei garu'n ddwfn o hyd. Pan fu farw Tessa, roedd yn y Dwyrain Canol gyda'i gariad diweddaraf. Cafodd wybod am farwolaeth ei wraig pan ddarllenodd ei hysgrif goffa yn "The Times" ym Mharis. Er mai "cnaf" oedd Wheeler, i ddefnyddio disgrifiad Saesneg y cyfnod hwnnw, talodd deyrnged i Tessa yn ei hunangofiant yn 1955:

*"Bu farw Tessa yn syðyn. Doeðð neb yn gallu cymryð ei lle."*

Nododd hefyd ei rôl wrth sefydlu'r Sefydliad Archaeoleg yn Llundain:

*"Ffurfiwyð y pwyllgor apêl anochel yn 1932... cyfeiriwyð maniffesto at The Times. Cysylltwyð ag unigolion tebygol.*
*Dechreuoðð chwiliað hir am aðeilað aððas am gost aððas. Roeðð yn rhaið ymgynnull staff wrth ragwelð arian i'w ðalu. Ac yn yr holl weithgareððau hyn, heblaw am yr un olaf, ysgwyððoðð Tessa ran fawr o'r baich. Heb ei theyrngarwch ðiflino yn ystoð y ðiwrnoðau hynny, efallai yn hawðð na fyððai'r cynllun weði llwyððo."*

Er nad yw Tessa yn cael ei gwerthfawrogi cymaint ag y dylai fod am ei gwaith fel arloeswr mewn archeoleg fodern, mae ei hetifeddiaeth yn un bwysig. Pe na fyddai hi wedi marw'n annhymig, mae'n ddigon posibl y byddai wedi cael clod wrth i fenywod gael eu derbyn yn fwy yn y gweithle wrth i'r 20fed ganrif fynd yn ei blaen.

Gellir gweld placiau coffa er anrhydedd iddi hyd heddiw yn y Sefydliad Archaeoleg yn Llundain ac yn Amgueddfa Verulamium yn St Albans. Yng Nghymru, ei chofeb yw'r amffitheatr yng Nghaerllion, sy'n dal i swyno ymwelwyr hyd heddiw.




*Plac coffa i Tessa yn y Sefydliad Archaeoleg yn Llundain*



*Adfeilion y Deml Rufeinig ym Mharc Lydney © Jeff Collins*

Mae Lydia Carr yn talu teyrnged addas iddi:

*"Mae'r ðeml Rufeinig ym Mharc Lyðney, yr harððaf o holl safleoeðð y Wheelers, yn eðrych ðros ððyffryn Gwy o ben y bryn sy'n ynysu, a ðyma'r man lle roeðð Verney Wheeler i'w gweld fwyaf wrth law. Gobeithio ei boð hi yno, nið yn ei beððroð brics bach Rhufeinig yn St. Albans — er ei foð yn ððymunol. Mae ffryðiau meððyginiaethol y ðeml yn rheðeg yn rhyðlyð-goch o hyð gyða mwyn haearn, ac mae'r myneðfeyðð i'r twneli mwyngloððio is-Rufeinig a chynhanesyððol yn rhythu'n swil o'r tu ôl i isðyfiant gwyrðð....Mae'n lle gorffwys pellennig aððas ar gyfer y fenyw fach ryfeðð, wibiog hon, a roððoðð gymaint i eraill wrth gaðw ei henaið ei hun yn guðð."*

# Dysgu mwy

Os hoffech chi greu eich stori arloesol eich hun, neu ddysgu mwy am archaeoleg Rufeinig yng Nghymru, dyma rai adnoddau a allai eich helpu. Sylwer nad yw Cadw yn gyfrifol am y cynnwys ar wefannau allanol.

Dysgwch sut i ymweld ag adfeilion Rhufeinig Y Gaer, Caerllion, Caerwent a Segontium ar wefan Cadw.

Edrychwch ar gyfres ardderchog Cadw o adnoddau sy'n archwilio'r Rhufeiniaid yng Nghymru . Gwyliwch hyn yn y fideo gwych hwn gan Cadw yn dangos Bedyddfaen Rhufeinig Segontium yn codi o'r adfeilion diolch i CGI.

Dysgwch sut i ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Amgueddfa Cymru yng Nghaerllion.

Mae Sianel y Smithsonian yn esbonio pam mai Cymru yw'r lle i weld "Caerau Rhufeinig Anhygoel" yn y fideo byr hwn Fideo YouTube.

Mae gan wefan Caerleon.net gyfoeth o wybodaeth ac archifau am hanes Rhufeinig Caerllion.

Gwyliwch y fideo YouTube hon o'r archeolegydd, Dr Alice Roberts yn archwilio Prydain Rufeinig mewn un o raglenni dogfen Timewatch y BBC.

Mae'r Amgueddfa Brydeinig yn gofyn pa mor "Rhufeinig" oedd Prydain Rufeinig yn y fideo YouTube ddiddorol hon.

Mae gwefan Trowelblazers yn rhannu hanesion menywod amlwg ym maes archeoleg, gan gynnwys Tessa Verney Wheeler.

Dysgwch am drysorfa o arteffactau ar gasgliad archaeoleg Amgueddfa Cymru ar-lein .